
# Gwneud Bwla

Roedd bwla yn fath o goden neu loced yr oedd plant Rhufeinig yn eu gwisgo. Roedd i fod i roi lwc dda iddynt a'u cadw'n ddiogel rhag ysbrydion drwg. Roedd rhai yn godenni wedi'u gwneud o ddefnydd ond roedd rhai wedi'u gwneud o fetel. Roedd plant yn cael y rhain yn fuan ar ôl cael eu geni. Roedd merched yn eu gwisgo nes byddent yn priodi. Roedd bechgyn yn eu gwisgo nes byddent yn ddigon hen i ddod yn ddinasyddion. Weithiau roedd bechgyn yn eu gwisgo eto ar gyfer achlysuron arbennig e.e. os oeddent wedi ennill gwobr am ddewrder.

Roedden nhw'n cael eu gwneud o wahanol ddefnyddiau, a hefyd byddent yn cael eu creu mewn gwahanol siapiau. Gallech ddefnyddio'r cynllun isod, neu greu eich cynllun eich hun.



1. Torrwch gylch allan o ddefnydd. Defnydd sydd ddim yn rhaflo fyddai orau.
2. Addurnwch ef os dewiswch.
3. Torrwch dyllau'n rheolaidd o amgylch yr ymyl. Peidiwch â mynd yn rhy agos at yr ymyl.
4. Cymerwch ddarn o linyn neu ruban a'i wnïo drwy'r tyllau. Tynnwch hwn yn dynn i wneud coden.
5. Rhowch rywbeth ynddo i ddod â lwc dda Rufeinig i chi.
6. Defnyddiwch weddill y llinyn i'w hongian o amgylch eich gwddf. .